

**CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Chwefror 2016 yn Siambur y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, S.H. Ratcliffe, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

### **126. DECHRAU'R CYFARFOD**

Dechreuodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsey, y cyfarfod trwy arwain pawb mewn gweddi.

### **127. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Butterfield YH MBE (ar wyliau), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), P. Prendergast (ar wyliau), W. N. Tasker (ar wyliau), D. Simmons (ymrwymiad arall) a'r Parch. S. Walker (ymrwymiad gwaith) a Miss H. J. Windus, Dirprwy Glerc y Sir (yn sâl).

### **128. COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17eg Chwefror 2016 - Rhifau Cofnod 112-125

Gohiriwyd ystyried y cofnodion uchod tan y cyfarfod nesaf.

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Chwefror 2016 - Rhifau Cofnod 51-53

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 2il Mawrth 2016 - Rhifau Cofnod 54-56

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

#### **I Gadarnhau neu fel arall:**

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 2il Mawrth 2016 - Rhifau Cofnod 86-96

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cymeradwyo ar gyfer gweithredu.

#### **129. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau a fynychwyd ganddo ef a'r Dirprwy Faer y mis diwethaf.

#### **130. CYNGOR TREF Y RHYL – COD YMARFER MABWYSIEDIG**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig yn hysbysu'r cyfarfod o'r newidiadau i'r Cod Ymarfer a'r angen i'r Cyngor fabwysiadwy'r fersiwn newydd, diwygiedig.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cod Ymarfer diwygiedig a fanwylwyd yn yr adroddiad ac yn cynnwys darpariaeth ychwanegol a argymhellwyd gan Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych a'i fabwysiadu fel Cod Ymarfer Cyngor Tref y Rhyl.

#### **131. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

#### **132. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADFYWIO'R RHYL**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol, a Mr Russell Vaughan i'r cyfarfod, i roddi diweddariad cyfrinachol i'r Aelodau ar brosiectau adfywio.

Anerchodd Miss Maxwell y cyfarfod gan ei hysbysu o gynnydd prosiectau Y Rhyl yn Symud Ymlaen hyd yma. Yna rhoddodd Ms Maxwell amlinelliad o'r prosesau a'r mecanweithiau llywodraethu yn y dyfodol y bwriedir eu defnyddio yng nghyfnodau nesaf rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen ac ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** diolch i'r swyddogion am eu presenoldeb.

#### **133. SESIWN AGORED**

Ar ddiwedd yr eitem uchod, **PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod yn parhau mewn sesiwn agored.

#### **134. PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL / PWYLLGOR CYNLLUNIO 4ydd MAI 2016**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad llafar yn ymwneud ag anawsterau posibl i'r Cyngor wrth gyfarfod ar noswyl Etholiadau Cynulliad Cymru.

**PENDERFYNWYD** bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio a drefnwyd ar gyfer y 4ydd Mai 2016 yn cael eu canslo ac awdurdodi Clerc y Dref mewn ymgynghoriad a'r cadeiryddion perthnasol i ddelio â materion sy'n codi sydd angen sylw brys.

### 135. DARPARIAETH BARCIO YN Y RHYL

Cyflwynwyd adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn gofyn am farn yr Aelodau ar barcio ceir yn y Rhyl yn gyffredinol ac arwyddion cyfeirio yn benodol.

Mynegodd Aelod y farn, o ystyried pwysigrwydd parcio yn y dref, y byddai'n fuddiol cynnal cyfarfod agored a gwahodd busnesau yn y dref i fynychu a mynegi eu barn.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn gwneud y trefniadau priodol i gynnal cyfarfod agored.

### 136. HOLI AC ATEB

Holodd aelod o'r cyhoedd, Mr Lloyd, ynglŷn ag effaith y taliadau parcio uwch a oedd yn cael eu pennu gan y Cyngor Tref.

Dywedodd Clerc y Dref bod y cynnydd yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ddinbych yn hytrach na'r Cyngor Tref.

### 137. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

[Ar y pwynt hwn yn y trafodaethau, gadawodd y Cynghorydd B. Mellor y cyfarfod a chymerodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Miss S. L. Roberts y gadair am weddill y cyfarfod.]

### 138. CRONFEYDD WRTH GEFN / BALANSAU – AMCANESTYNIADAU 2015/16

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn ymwneud â lefel balansau a ddelid gan y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r arian a ddelid gan y Cyngor ar hyn o bryd a'r rhesymau dros lefel y cronfeydd wrth gefn ac yn adrodd ar wariant a gymeradwywyd yn ddiweddar.

Yna adnabu'r adroddiad swm o arian heb ei ddyrannu a oedd ar gael i'r Cyngor oherwydd arbedion a gofyn am farn yr Aelodau ar sut dylid orau ei ddyrannu. Mewn perthynas â hyn, adnabu Clerc y Dref ddau ddyraniad posibl y gellid eu gwneud.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (i) derbyn a chydabod yr adroddiad
- (ii) cymeradwyo'r dyraniad arfaethedig o hyd at £35,000 tuag at waith ychwanegol i wyneb llwybr beicio'r promenâd ar Rodfa'r Gorllewin.
- (iii) defnyddio'r arbedion a wnaed gan y Cyngor dan y gyllideb staffio dros flwyddyn ariannol 2015/16 i wneud cyfandaliad cyfatebol yn erbyn y diffyg parhaus.

**139. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**140. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: .....